# ROBERTS, GRIFFITH (1735 - 1808), meddyg, a chasglwr llawysgrifau

**Enw:** Griffith Roberts
**Dyddiad geni:** 1735
**Dyddiad marw:** 1808
**Priod:** Margaret Roberts
**Plentyn:** William Roberts
**Plentyn:** Griffith Roberts
**Rhiant:** Robert Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** meddyg, a chasglwr llawysgrifau
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Meddygaeth
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd yn 1735 (bedyddiwyd 6 Medi) yn Isallt, Penmorfa, Eifionydd, yn fab i Robert Roberts (1707 - 1769); gweler yr ach yn J. E. Griffith, *Pedigrees*, 359; y mae'r teulu (cainc o deulu Cesail Gyfarch) yn hynod am y nifer eithriadol (30, medd rhai) o feddygon a hanoedd ohono. Meddyg (a breswyliai yn y Plas Isa, Dolgellau) oedd Griffith Roberts yntau, ond fe'i cofir yn hytrach fel casglwr hen lawysgrifau Cymraeg - bu rhai o'n llawysgrifau pwysicaf yn ei feddiant, a rhoes fenthyg rhai ohonynt i olygyddion *The Myvyrian Archaiology of Wales*. Bu farw 28 Rhagfyr 1808. Yr oedd ei fab, Griffith (a fu farw yn Nolgellau yn 1815) yntau'n feddyg ac yntau'n ymhel â llawysgrifau.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


*Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales*, Rhan I, x-xiv

[ *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, vi, 240-3]


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804708


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu